

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL

Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth Strategol / *Strategic Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Pennaeth Gweithredol / *Acting Headteacher*: Mr Gareth Ll. James



LLYTHYR GŴYL DEWI

Dathlu Gŵyl Dewi – Gyda Mawrth 1af yn glanio ar ddydd Sul eleni, byddai'n braf gweld y plant yn eu gwisgoedd Cymreig a'u cennyn pedr ar ddydd Llun yr 2ail os ydych yn dymuno. Byddwn hefyd yn dysgu am fywyd Dewi Sant yn ystod gwersi'r diwrnod.

Parêd Gŵyl Dewi – Cofiwch am y Parêd sydd wedi'i drefnu ar gyfer 1 o'r gloch brynhawn dydd Sadwrn. Mae'r taflenni gwybodaeth eisoes wedi'u dosbarthu. Bydd cynrychiolwyr o'r ysgol yn cario baner fawr a addurnwyd yn yr ysgol yn ystod y parêd. Cadwch lygad mâs amdani!

Eisteddfod yr Urdd – Llongyfarchiadau i'r offerynnwyr a fu'n cystadlu mor dda, ac am eu llwyddiant yn yr Ŵyl Offerynnol yn Felinfach neithiwr. I'ch hatgoffa, cynhelir y rhagbrofion ar gyfer Canu a Llefaru ddydd Mercher nesaf, gyda'r Eisteddfod Gynradd a'r Eisteddfod Ddawns yn cael ei chynnal yn y Neuadd Fawr ddydd Iau nesaf, Mawrth y 5ed. Bydd pamffled gyda holl wybodaeth yr eisteddfodau yn cael ei dosbarthu i'r cystadleuwyr yfory. Bydd copi hefyd ar wefan yr ysgol, yn yr adran Rhieni>Llythyrau. (Er gwybodaeth, bydd y rhai sy'n fuddugol yn y cystadlaethau llwyfan yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir a gynhelir ym Mhafiliwn Bont ar yr 21ain o Fawrth, gyda'r dawnsio yn cystadlu'n sirol ar y 24ain o Fawrth yn Theatr Felinfach)

Celebrating Saint David's Day – *With March 1st being on a Sunday this year, it would be lovely to see the children wear their Welsh costumes and daffodils on Monday the 2nd if you wish. We will also be learning about Saint David during the day.*

Saint David's Parade – *A reminder that a Parade has been organised for 1 o'clock on Saturday. Flyers have already been sent home with the children. Representatives of the school will be carrying a large banner which has been decorated at the school – keep an eye out for it!*

Urdd Eisteddfod – *Congratulations to the instrumentalists on competing so well, and for their success at the Instrumental Festival last night. As a reminder, the Singing and Reciting prelims will be held next Wednesday, with the Primary Eisteddfod and Dance Eisteddfod held on Thursday, March 5th. A booklet with all the eisteddfod details will be sent home tomorrow. A copy will also be kept on the school website, in the section for Parents>Letters. (For your information, if successful in the stage competitions, pupils will go on to compete at county level which is held in Pontrhydfendigaid on the 21st of March, with the dance being held on March 24th at Theatr Felinfach)*

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.
If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.

Mr Gareth James
Pennaeth Gweithredol
Acting Headteacher
26/02/2015